BookTrust Cymru

**Amser Rhigwm Mawr Cymru**

Big Welsh Rhyme Time

# Tyrd Gyda Fi! / Come With Me!

**gan Krystal S. Lowe**

Wiwer fach, wiwer fach, tyrd gyda fi
Cawn redeg yn gyflym, 'da'n gilydd yn rhydd!
Little squirrel, little squirrel, come with me
We'll run and run, side by side and free!

Deryn bach, deryn bach, tyrd gyda fi
Cawn hedfan drwy'r awyr, 'da'n gilydd yn rhydd!
Little bird, little bird, come with me
We'll fly in the sky, side by side and free!

Bwni fach, bwni fach, tyrd gyda fi
Cawn fownsio drwy'r blodau 'da'n gilydd yn rhydd!
Little Rabbit, Little Rabbit, come with me
We'll bounce through flowers, side by side and free!

A phan fydd hi'n oer a'r glaw yn disgyn,
And when it's cold and the rain comes in,
Fe ddaliwn i redeg, a bownsio, a hedfan!
We'll run, and bounce, and fly 'cause we can!

**Gwyliwch fideo ategol y rhigwm fan yma**
**www.booktrust.org.uk/cy-gb/bigwelshrhymetime**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone


Rhif Elusen / Charity Number: 313343

# Tyrd Gyda Fi! / Come With Me!

## Esboniwr y gweithgaredd (i'w ddefnyddio law yn llaw â'r fideo)

**Pwrpas:** Mae *Tyrd Gyda Fi! / Come With Me!* yn ymwneud â darganfod yr awyr agored gyda phlant bach waeth beth fo'r tywydd, hyd yn oed yn y gaeaf.

**Deunyddiau angenrheidiol:** Dillad mynd allan sy'n addas i'r tywydd. Mae croeso i chi ddefnyddio eich cerddoriaeth eich hunan ar gyfer y gweithgaredd neu gallwch chwarae cerddoriaeth 'Pastai Mwd' sy'n ymddangos yn fideo *Tyrd Gyda Fi! / Come With Me!*

**Cynhesu**

Mae cynhesu cyn symud yn hanfodol ar gyfer cynnal corff iach a chreu arferion da ymysg plant bach. Rhowch hoff gân i chwarae a chynheswch drwy ofyn i'r grŵp gopïo eich symudiadau.

**Rhwbio, Ysgwyd a Rholio!**

Dechreuwch gan roi eich dwylo at ei gilydd a'u **rhwbio'n** sydyn, gan gynhesu eich dwylo. Yna rhwbiwch eich dwylo'n gyflym ar hyd eich breichiau, eich cefn a'ch coesau i gynhesu eich holl gorff.

Yna **ysgwydwch** bob braich yn eu tro yn dyner, y ddwy ysgwydd, y cluniau a'r coesau – gan lacio'r cymalau wrth fynd!

I gloi, dechreuwch gyda'ch garddyrnau a **rholiwch** eich dwylo mewn siâp cylchoedd, yna'r ysgwyddau, cluniau a fferau. Nawr rydych chi'n barod i ddechrau symud.

**Amser Gweithgaredd**

**Cam 1:**

Dewch â'ch plant bach at ei gilydd yn yr awyr agored.

**Cam 2:**

Darllenwch y rhigwm yn uchel drwodd unwaith.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone


Rhif Elusen / Charity Number: 313343

BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

# Tyrd Gyda Fi! / Come With Me!

## Esboniwr y gweithgaredd (i'w ddefnyddio law yn llaw â'r fideo)

**Cam 3:**
Darllenwch bob pennill o'r gerdd un ar y tro a gofynnwch i'ch grŵp ddychmygu ffyrdd y gallan nhw symud gyda'r anifeiliaid. Rhoddir awgrym am symudiadau ar gyfer pob anifail isod.
Ar ôl gorffen y gerdd, atgoffwch y grŵp am ba anifeiliaid sy'n ymddangos yn y rhigwm, a gofynnwch iddyn nhw ydyn nhw'n cofio sut roedden nhw'n symud.
Gallwch ailadrodd y penillion os yw hyn yn helpu'r grŵp. Mae ailadrodd hefyd yn helpu gyda datblygu iaith a'r cof.

**Pennill 1:**
Pa mor gyflym allwch chi redeg?
Gofynnwch i'r plant ddewis partner a gweld pa mor gyflym y gallan nhw a'u partner redeg yn yr unfan.

**Pennill 2:**
Ymestynnwch eich breichiau'n llydan a pharatowch i hedfan!
Gofynnwch i'r grŵp geisio hedfan mewn siapau igam ogam a chylchoedd ochr yn ochr â phartner wrth i chi adrodd y rhigwm.

**Pennill 3:**
Nawr, bownsio!
Gofynnwch i'r grŵp fynd yn isel i'w cwrcwd ac adroddwch y gerdd wrth iddyn nhw fownsio fel bwni gyda phartner.

**Pennill 4:**
Ar gyfer y pennill olaf, gofynnwch i bob plentyn ddewis ystum hwyliog neu un o'r symudiadau blaenorol.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone


Rhif Elusen / Charity Number: 313343